

FRÂN WEN

PECYN RECRIWTIO

# CADEIRYDD BWRDD

# AILDDIFFINIO'R DYFODOL. UN SIOE AR Y TRO.

Yn gwmni theatr wedi ei leoli ym Mangor, rydym yn cydweithio gydag artistiaid, cymunedau a phobl ifanc arbennig i greu theatr Gymraeg y mae pobl eisiau ei weld - y perthnasol, yr epig, y cynhwysol a'r trawsnewidiol.

Mae'n amser i'r rhai ar yr ymylon i arwain y ffordd er mwyn gwneud heddiw yn fwy disglair ac yfory yn hyd yn oed gwell.




# RYDYM YN ANGERDDOL AM

## YR IAITH GYMRAEG

## CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL, ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL

## AMRYWIAETH, CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT



Bu gwasanaethu fel Cadeirydd y Cwmni yn fraint o'r mwya' i mi dros y 4 blynedd diwethaf. Cefais fod yn rhan o waith un o gwmnïau mwyaf blaengar y wlad. Cwmni sydd yn gweithio gyda pobl ifanc o bob cefndir drwy'r iaith Gymraeg , i gyflwyno profiadau theatr sydd tu hwnt i'r cyffredin; yn fodern, yn newydd, yn epig ac yn gynhwysol.

Dyma gyfle gwych felly i gyfrannu at waith a dyfodol y cwmni wrth iddo edrych ymlaen at bennod newydd a chyffrous mewn cartref newydd. Y mae'n Fwrdd arbennig sy'n llawn egni a dwi'n edrych ymlaen i barhau i wasanaethu arno. Yn ogystal â Bwrdd egnïol, cewch weithio gyda Chyfarwyddwr Gweithredol a Chyfarwyddwr Artistig sydd â llwyr ymroddiad i waith a gweledigaeth y cwmni a'r angerdd i'w wireddu gyda chefnogaeth tîm o staff sydd yn gyrru'r sector yn ei blaen.

Mae croeso i chi gysylltu gyda mi drwy gysylltiadau'r cwmni os yw'r cyfle hwn yn apelio atoch.

**Pryderi ap Rhisiart, Cadeirydd presennol**



FRÂN WEN




**Gwrando, siarad a chreu gyda'n gilydd**

Rydym yn cyd-greu theatr sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes drwy gysylltu cymunedau, artistiaid a phobl ifanc.

**Tanio Creadigrwydd**

Rydym yn herio artistiaid i ddarganfod eu creadigrwydd o'r newydd au cefnogi i greu a rhannu theatr sy'n cyffrou cynulleidfaoedd.

**Creu theatr arbennig**

Rydym yn creu theatr eithriadol, amlddisgyblaethol a chynhenid Gymreig wrth i artistiaid feiddio gwneud yr hyn na allant ei wneud yn unman arall.

**Bangor i'r Byd**

Rydym yn rhannu ein stori er mwyn darganfod a dathlu ein lle yn y byd.

# YN 2024...

# 14,100

**o bobl wedi cymryd rhan yn ein rhaglen ymgysylltu.**

# 11,914

**o bobl wedi gweld ein gwaith.**

# 319

**o artisitiad llawrydd wedi eu cyflogi gennym.**

Cynhyrchwyd a theithwyd **5 cynhyrchiad byw gwreiddiol Cymraeg** – Deian a Loli: Y Ribidirew Olaf, Corn Gwlad a'r drioleg Olion.

Cynhaliwyd **41 o berfformiadau byw** mewn lleoliadau ar draws Cymru, mewn gwyliau cenedlaethol ac ar leoliad ym Mangor.

Comisiynwyd a datblygwyd **5 darn newydd o waith newydd gwreiddiol.**

Cynhaliwyd 9 prosiect fel rhan o'n rhaglen ymgysylltu yn cynnwys **871 o weithdai gan gyrraedd 14,100 o blant**, pobl ifanc a'r gymuned ym Mangor, Cymru a hyd yn oed Efrog Newydd.

Cynhaliwyd gŵyl gelfyddydol gymunedol ac arddangosfa gelf ym Mangor gan ymgysylltu gyda **9,385 o drigolion y ddinas**.

Croesawyd **15,926 o bobl drwy ddrysau ein cartref, Nyth** – yn artistiaid, yn bobl ifanc ac yn aelodau o'r gymuned.

Cefnogwyd **8 prosiect celfyddydol annibynnol** drwy gynnig gofod ac adnoddau mewn da

Cydweithiwyd gydag amrywiaeth o bartneriaid ac ariannwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r 5 mlynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod heriol ond eithriadol o drawsnewidiol i Frân Wen. Yn dilyn cyflawni prosiect cyfalaf uchelgeisiol gwerth £5miliwn rydym wedi symud i'n cartref newydd, Nyth, yng nghalon dinas Bangor, wedi sicrhau cyllid aml-flwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn dilyn Adolygiad Buddsoddiad cystadleuol ac wedi gwireddu rhai o'n prosiectau mwyaf uchelgeisiol hyd yma, gan gynnwys y trioleg OLION, a'r cynhyrchiad prif lwyfan Branwen:Dadeni.

Wrth i ni edrych tuag at gamau nesa Frân Wen, rydym yn chwilio am Gadeirydd newydd gyda hanes profedig mewn uwch arweinyddiaeth, naill ai drwy brofiad gweithredol neu anweithredol.

Bydd y Cadeirydd yn hyderus wrth feithrin perthnasoedd ar lefel uwch gyda rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol, a bydd ganddynt arddull gynhwysol sy'n dod ag ystod eang o ymddiriedolwyr a chydweithwyr ynghyd.

Mae ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol yn ogystal â pharodrwydd i gynnal pwrpas a gwerthoedd Frân Wen. Yn anad dim, mae Frân Wen yn sefydliad deinamig, uchelgeisiol a chadarnhaol.

Mae'r amgylchedd rydym yn gweithio ynddi yn gynyddol heriol, ond rydym yn gyffrous am y dyfodol ac yn chwilio am unigolyn deinamig, strategol a beiddgar i gefnogi cam nesaf stori Frân Wen.




*Adolygiad Olion (2024)*




*Adolygiad Imrie (2023)*



# Y RÔL

Fel Cadeirydd, byddwch yn arweinydd eithriadol sy’n cynnig arweiniad a chefnogaeth i'r cwmni. Byddwch yn ysbrydoli Cyfarwyddwyr eraill a'r staff i sicrhau bod y sefydliad yn dal i arloesi, i ffynnu ac i ddatblygu ymhellach.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Artistig ac yn arweinydd nodedig fydd yn eirioli dros weledigaeth a chenhadaeth y cwmni ar y lefel uchaf.

Ymhlith y prif ddyletswyddau, mae:

- Sicrhau bod y Bwrdd yn gosod strategaeth i’r cwmni ac yn ei adolygu'n rheolaidd
- Monitro cynaliadwyedd ariannol y cwmni er mwyn gwireddu allbwn artistig o’r safon uchaf posib
- Rheoli, gwerthuso a chefnogi’r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Artistig gan gynnig cyngor gyda materion gweithredol pan fo’n briodol
- Gweithio gyda’r Cyfarwyddwr Gweithredol a’r Cyfarwyddwr Artistig i sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol ac elusennol
- Craffu ar berfformiad y cwmni gan sicrhau fod systemau adrodd cadarn mewn lle er mwyn sicrhau trylowyder ac atebolrwydd
- Sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu fel tîm effeithiol ac yn rhoi her gadarnhaol i'r staff
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Artistig i gynrychioli'r cwmni gyda rhanddeiliaid allanol a datblygu perthnasoedd a rhwydweithiau'r cwmni.

**Rydym yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr newydd Cymraeg a gallwn darparu hyfforddiant i'ch cefnogi i ymgymryd â gofynion y swydd.*

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae disgwyl i'r aelodau gyfrannu at waith strategol ychwanegol penodol, yn ôl yr angen. Mae’r is-baneli yn cynnwys Artistig, Adnoddau Dynol a Llesiant, Cynaliadwyedd, Datblygu a Chyllid, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bydd gofyn i'r Cadeirydd hefyd fynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Artistig; cyfarfodydd lefel uchel gyda rhanddeiliaid a chyllidwyr ar brydiau; a chynrychioli'r sefydliad mewn digwyddiadau cyhoeddus.

**FFI**

Nid yw'r Cadeirydd yn derbyn tâl gan mai swydd sy'n cael ei chyflawni'n wirfoddol yw hon. Fodd bynnag, gall y Cadeirydd hawlio treuliau rhesymol wrth gyflawni busnes yr elusen.



## HYGYRCHEDD

Mae Frân Wen yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn croesawu diddordeb gan siaradwyr newydd i'r Gymraeg ac yn gallu darparu cefnogaeth priodol i'r perwyl hwn.

Mae Frân Wen wedi ymrwymo i ddatblygu Bwrdd Rheoli amrywiol a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyfranogi. Deallir bod swydd Cadeirydd yn ymrwymiad sylweddol, a gellir darparu cymorth i unigolion drwy dalu costau gofal plant a gofal arall ac unrhyw gostau rhesymol eraill sy'n codi fel rhan o ddyletswyddau'r Cyfarwyddwyr.

Mae´r cwmni'n arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector, a gan y rhai sy'n profi gwahaniaethu oherwydd hil, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran.

Os ydych angen gwybodaeth mewn fformat wahanol neu os oes gennych unrhyw ofynion mynediad ac angen cefnogaeth i ymgeisio yna cysylltwch â Nia Jones [ nia@franwen.com ]



## SUT I FYNEGI DIDDORDEB?

Ysgrifennwch lythyr cais neu lluniwch gais fideo. Dylai eich llythyr / fideo gynnwys eich enw, cyfeiriad post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.

Rhowch wybod i ni:

- Manylion eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad a sut y byddent yn berthnasol i waith Frân Wen.
- Manylion llwyddiannau proffesiynol a'r rhesymau rydych chi'n falch ohonynt.
- Sut allwch chi wneud cyfarniad gwerthfawr i Frân Wen mewn cyfnod allweddol yn ei hanes.
- Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r rôl.


Anfonwch y canlynol at nia@franwen.com:

- Eich llythyr cais neu fideo
- Eich CV (o ddim mwy na thair tudalen A4)
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Frân Wen wedi'i chwblhau (ar gael yma)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol mae croeso i chi gysylltu gyda'r canlynol:

| | |
|---|---|
| **Nia Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol** | **nia@franwen.com** |
| **Gethin Evans, Cyfarwyddwr Artistig** | **gethin@franwen.com** |

**Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau:** **10 Chwefror 2025**


FRANWEN.COM